GREGYNOG

**BRIFF**

# Ymgynghorydd Gwerthuso

**Rhanbarth: Cymru**

**Math o Swydd: Contract**

**Ffi: £10,000 gan gynnwys yr holl dreuliau ond heb gynnwys TAW (mae £25,000 clir pellach ar gael yng Nghyfnod Cyflwyno'r prosiect, yn amodol ar ddyfarnu grant)**

**Lleoliad: Gregynog, Powys, Cymru, SY16 3PL**

**Amserlen: Mawrth 2026 – Mawrth 2027**

Mae Ymddiriedolaeth Gregynog yn dymuno penodi Ymgynghorydd Gwerthuso i gyflawni elfen monitro a gwerthuso prosiect *Codi'r To!* a gefnogir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

**https://gregynog.org**

**Dyddiad Cau ar gyfer ceisiadau: 1200 prynhawm, 26 Mawrth 2026**

**Dyddiad arfaethedig  y cyfweliad (ar-lein): 31 Mawrth/ 1 Ebrill 2026**

Cynnwys


1.0 Cefndir t 2
2.0 Prosiect t 4
3.0 Cwmpas y gwasanaethau t 5
4.0 Amodau'r penodiad t 6
5.0 Profiad, gwybodaeth a sgiliau t 8
6.0 Amserlen t 8
7.0 Proses ymgeisio t 9
8. Meini prawf asesu t 10

**1.0 Cefndir**

Ynglŷn ag Ymddiriedolaeth Gregynog

Cafodd Ymddiriedolaeth Gregynog ei hymgorffori ar 15 Tachwedd 2016 fel Cwmni Cyfyngedig Preifat Rhif 10479711 a rhoddwyd Statws Elusennol iddi gan y Comisiwn Elusennau ar 30 Tachwedd 2018 - Rhif Elusen gofrestredig 1180943.

Er bod Gwasg Gain (Fine Press) Gregynog wedi'i lleoli yng Ngregynog, mae'n Gwmni Cyfyngedig ar wahân ar hyn o bryd. Mae Ymddiriedolaeth Gregynog mewn trafodaethau i gymryd perchnogaeth lawn ohoni yn 2026. Mae Gŵyl Gerdd Gregynog yn gwmni cyfyngedig ar wahân ac nid yw'n rhan o'r Ymddiriedolaeth.

Ynglŷn â Gregynog

Ystâd 750-erw yw Gregynog, sy'n cynnwys y Plas rhestredig Gradd II*, strwythurau concrit cynnar a gerddi wedi'u tirweddu gan William Emes ac yn ddiweddarach y Fonesig Sylvia Crowe, ynghyd â Safle mawr o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), gwarchodfa natur ddynodedig ac arboretwm, cronfa ddŵr Gwgia, llyn, ffermdir ac adeiladau. Mae hen goetiroedd derw mes di-goes Gregynog yn rhan o Goedwig Genedlaethol Cymru.

Mae hanes Gregynog yn ymestyn yn ôl ganrifoedd ac efallai ei fod yn fwyaf adnabyddus am ei drigolion yn yr 20fed Ganrif, sef y chwiorydd Gwendoline a Margaret Davies. Chwaraeodd y ddwy fenyw ddyngarol nodedig hyn, a oedd yn entrepreneuriaid cymdeithasol ac yn gasglwyr celf enwog, ran hanfodol yn hanes diwylliannol, addysgol a chymdeithasol Cymru gan ymgartrefu yng Ngregynog.

Mae Ymddiriedolaeth Gregynog wedi ymrwymo i ofalu am y tŷ hanesyddol pwysig hwn a'r ystâd weithio y saif ynddo, gan adnewyddu adnewyddu a gwella'r cyfan. Hyd yma rydym wedi codi oddeutu £800,000 i gyfrannu at ein gwaith cadwraeth natur, adnewyddu ein Gardd Furiog a chreu mynediad i'n gerddi hanesyddol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dechrau gweithio ar gyfnod datblygu ei hymgyrch *Codi'r To!* gwerth £5 miliwn a gefnogir gan y Gronfa Treftadaeth – a fydd yn gam mawr ymlaen wrth drawsnewid y Plasty a'r casgliadau celfyddyd gain a chymhwysol arbennig sydd ynddo.

Rydym yn croesawu ymwelwyr i gynnal a chreu cynadleddau a thrafodaethau ysgogol, datblygu gweithgareddau newydd a mwynhau amgylchedd adferol. Rydym yn gwerthfawrogi ein hanes ac yn ysbryd y weledigaeth a arddelid gan ei gyn-berchnogion, bydd Gregynog yn parhau i chwarae

rhan bwysig wrth galon Cymru a bywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach ein gwlad ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd ein gofal am Gregynog a’n gwaith adnewyddu yn rhannu ei hud ac yn creu cartref mwyaf croesawgar Cymru ar gyfer natur, dysgu a'r celfyddydau.

**2.0 Prosiect *Codi'r To!* .**

Prosiect cyfalaf o gwerth ~£5 miliwn yw Codi'r To! Mae'r rhaglen gwaith cyfalaf yn canolbwyntio ar atgyweirio brys a hanfodol ar do Plas Gregynog, sy'n agosáu at ddiwedd ei oes ddefnyddiol. Bydd gwaith cysylltiedig yn atgyweirio neu'n disodli nwyddau dŵr glaw, ffasgiâu ac estyll talcen, ac yn ymgymryd â gwaith hanfodol ar y ddaear i wella draeniad. Mae'r prosiect hefyd yn cynnig y cyfle i addasu'r adeilad ar gyfer newid hinsawdd a gwella'r seilwaith hygyrchedd. Atgyweirio'r to yw'r cam cyntaf wrth Adfer y Plas, gan sicrhau'r lle hudolus hwn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a datgloi ei botensial ehangach.

Ochr yn ochr â'r gwaith cyfalaf, mae'r prosiect yn gwahodd pobl i ymgysylltu â stori hynod y Chwiorydd Davies yn eu hen gartref, trwy eu casgliadau, yn ogystal ag o fewn amgylchoedd naturiol rhagorol Gregynog. Bydd y prosiect ehangach yn ymgymryd â gwaith i ddatblygu'r sefydliad er mwyn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor yr Ymddiriedolaeth; sefydlu ac adfywio rhaglen gerddoriaeth a gwyliau, a chynnal cyfres o ddigwyddiadau bywiog ym meysydd y celfyddydau a byd natur; creu a chryfhau partneriaethau â sefydliadau cydlynol a'r gymuned leol; datblygu strategaeth ddehongli ar gyfer yr ystâd; a datblygu a chyflwyno rhaglen wirfoddoli i gefnogi cynaliadwyedd yr Ymddiriedolaeth.

Mae cyllid wedi'i sicrhau gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cronfa Treftadaeth Bensaernïol, Ymddiriedolaeth y Pererin a'r Gymdeithas Tai Hanesyddol i gefnogi Cyfnod Datblygu'r prosiect gwerth £961,591 ac rydym bellach wrthi'n adeiladu ein tîm prosiect.

**Pensaer ac Arweinydd Tîm Dylunio** Buttress https://buttress.net/

**Rheoli Prosiectau** Lode Heritage https://www.lodeheritage.com/

Rydym wrthi'n hysbysebu am Ymgynghorydd Cynllun Gweithgareddau, Cynlluniwr Busnes, Ymgynghorydd Gwerthuso, Ymgynghorydd Codi Arian ac Ymgynghorydd Dehongli.

**3.0 Cwmpas y gwasanaethau**

3.1 Yn y Cyfnod Datblygu

Bydd yr Ymgynghorydd Gwerthuso yn adrodd i Grŵp Llywio Prosiect Ymddiriedolaeth Gregynog drwy'r Rheolwr Prosiect, gan weithio'n agos â thîm y prosiect, staff a gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth Gregynog yn y meysydd canlynol:

- Sefydlu llinell sylfaen ar gyfer gweithgaredd cyfredol Ymddiriedolaeth Gregynog
- Datblygu methodoleg gwerthuso ar gyfer Cyfnod Datblygu'r prosiect
- Datblygu a darparu offer/dulliau a hyfforddiant priodol i'w defnyddio wrth gasglu a chofnodi data, gan gynnwys methodoleg ar gyfer casglu ac adrodd data yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Darparu adborth pendant ar ganfyddiadau'r gwerthuso yn ystod y Cyfnod Datblygu er mwyn gallu cymhwyso dysgu ar sail 'fyw' wrth i'r prosiect ddatblygu
- Ysgrifennu adroddiad terfynol sy'n cwmpasu pob agwedd ar y Cyfnod Datblygu ac yn nodi meysydd dysgu ar gyfer Cyfnod Cyflwyno'r prosiect i'w gyflwyno gydag adroddiad terfynol y Cyfnod Datblygu
- Datblygu fframwaith ar gyfer gwerthuso Cyfnod Cyflwyno'r prosiect, gan ystyried y gwersi a ddysgwyd yn y Cyfnod Datblygu a datblygiad cynlluniau'r prosiect, i'w cynnwys gyda chais Cyfnod Cyflwyno'r prosiect
- Cyfrannu at gyfarfodydd adolygu a chynnydd Cyfnod Datblygu Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ôl y gofyn.

Os bydd y prosiect yn llwyddiannus i gael cyllid ar gyfer ei Gyfnod Cyflwyno, rhagwelir y byddai'r Ymgynghorydd Gwerthuso yn cael ei ail-gontractio i gefnogi Cyfnod Cyflwyno'r prosiect.

3.2 Yn y Cyfnod Cyflwyno, byddai'r gwerthuswr yn:

- Annog casglu data yn unol â fframwaith gwerthuso'r Cyfnod Cyflwyno, gan dybio bod rhywfaint o ddata yn cael ei gasglu'n uniongyrchol gan yr Ymgynghorydd Gwerthuso a rhywfaint gyda chymorth staff a gwirfoddolwyr y prosiect
- Dansoddi'r data
- Cynhyrchu adroddiad dros dro o'r canfyddiadau i ganiatáu gwelliant pendant wrth gyflwyno Cynllun Gweithgareddau'r prosiect.
- Cynhyrchu Adroddiad Gwerthuso terfynol sy'n bodloni gofynion y Gronfa Treftadaeth ac yn caniatáu i Ymddiriedolaeth Gregynog ymgorffori dysgu pellach o'r prosiect yng

ngweithgareddau yn y dyfodol

3.3 Bydd y fframweithiau gwerthuso ar gyfer dau gyfnod y prosiect yn manylu ar y dulliau gwerthuso sy'n briodol i werthuso'n briodol nodau a chanlyniadau'r prosiect ond ar yr un pryd yn addas ar gyfer y cynulleidfaoedd y mae'r prosiect yn ceisio eu denu eu hymgysylltiad. Disgwylir y bydd yr Ymgynghorydd Gwerthuso yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau meintiol ac ansoddol, gan gynnwys rhai cyfranogol a chreadigol yn ôl yr angen. Dylai ymgynghorwyr roi sylw i'r ffaith y dylai Tendrwyr ddangos sut y byddant yn ystyried yr iaith Gymraeg a'r ystyriaethau ymarferol a diwylliannol o gyflwyno gwerthusiad mewn cyd-destun dwyieithog ac amlieithog, gan gynnwys hygyrchedd dulliau gwerthuso, deunyddiau a dulliau ymgysylltu. Mae'r gyllideb wedi'i chlustnodi yn y prosiect ar wahân i'r briff hwn i gefnogi ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg.

3.4 Dylai'r Ymgynghorydd Gwerthuso ddefnyddio dull damcaniaeth newid, fel y nodir yng nghanllawiau'r Gronfa Treftadaeth https://www.heritagefund.org.uk/cy/publications/gwerthuso-canllawiau-arfer-da a sicrhau bod y gwerthusiad yn cyd-fynd â'i strategaeth Treftadaeth 2033 ac yn mesur perfformiad ein prosiect yn erbyn Egwyddorion Buddsoddi cyfredol Egwyddorion Buddsoddi.

**4.0 Amodau penodi eraill**

4.1 Disgwylir i'r ymgynghorydd fynychu cyfarfodydd prosiect yn fisol (hybrid ar-lein/ar y safle)

4.2 Wrth dderbyn y comisiwn hwn, mae'r ymgynghorydd yn cytuno i drwyddedu'r hawlfraint yr holl ddeunyddiau a gynhyrchir i gefnogi'r prosiect i Ymddiriedolaeth Gregynog a'i phartneriaid prosiect. Bydd gan Ymddiriedolaeth Gregynog yr hawl i ddefnyddio'r deunyddiau hynny fel y gwelant yn dda a heb gyfyngiad.

4.3 Rhaid i'r holl waith a gynhyrchir gefnogi gofynion yr Elusen a'r cyllidwr. Dylid rhannu'r holl waith gyda'r partneriaid yn ôl cyfarwyddyd yr Elusen.

4.4 Bydd y penodiad yn amodol ar gymal terfynu ar ôl cwblhau'r Cyfnod Datblygu, er mwyn i'r comisiwn beidio â symud pethau yn eu blaenau os na fydd ein cais Cyfnod Cyflwyno yn llwyddiannus.

4.5 Disgwylir i'r Ymgynghorydd gydymffurfio â Chanllawiau Cydnabyddiaeth Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol Acknowledgement Guidance

4.6 Contract llawrydd yw hwn; mae ymgynghorwyr yn parhau i fod yn gyfrifol am eu rhwymedigaethau treth ac yswiriant gwladol eu hunain.

4.7 Bydd y taliad mewn rhandaliadau, cytunir ar amserlen dalu wrth benodi

**5.0 Profiad, gwybodaeth a sgiliau**

Rydym yn chwilio am ymgynghorwyr gwerthuso sydd yn meddu ar:

- Brofiad o ddatblygu a chyflwyno fframweithiau gwerthuso ar gyfer prosiectau o bwys a ariennir yn bennaf gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol
- Profiad o ddatblygu a chyflwyno fframweithiau gwerthuso ar gyfer prosiectau mewn lleoliad treftadaeth tebyg
- Profiad o gyflwyno prosiectau yng Nghymru, gan ddangos dealltwriaeth o'n cyd-destun gweithredol, gan gynnwys gweithio mewn lleoliadau dwyieithog
- Gwybodaeth am arfer gorau gwerthuso ac ystod eang o ddulliau gwerthuso meintiol ac ansoddol
- Gwybodaeth am ein cyd-destun gweithredol
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol a all weithio gyda phobl o ystod eang o gefndiroedd
- Y gallu i gydbwyso ein dymuniad i ddefnyddio gwerthusiad ein prosiect i sicrhau gwelliannau parhaus gyda'r ymrwymiadau a wnaethom i'n cyllidwyr
- Mae'r gallu i siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg yn ddymunol er nad yn hanfodol ar gyfer y penodiad hwn

**6.0 Amserlen**

| | |
|---|---|
| Dychwelyd tendrau: | 1200 prynhawn, 26 Mawrth 2026 |
| Cyfweliadau (ar-lein): | 31 Mawrth/ 1 Ebrill 2026 |
| Dechrau'r Contract: | Mawrth 2026 |
| Adolygiad Cyfnod Datblygu (rhagwelir) | Rhagfyr 2026 |
| Cais Cyfnod Cyflwyno (rhagwelir) | Chwefror 2027 |
| Cwblhau'r contract: | Mawrth 2027 |

Mae amserlenni'r prosiect yn ddangosol a gallent newid yn ystod Cyfnod Datblygu'r prosiect.

**7.0 Y Broses Ymgeisio**

7.1 Ar gyfer unrhyw ymholiad ac i ymateb i'r tendr cysylltwch

â: Dale Copley, Rheolwr Prosiect

hello@lodeheritage.com
07841870445

Mae angen y wybodaeth ganlynol fel rhan o'r cyflwyniad:

- Manylion llawn y cyflenwr gan gynnwys manylion yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, atebolrwydd cyflogwr ac yswiriant indemniad proffesiynol.

- Methodoleg gryno (cyfanswm o ddim mwy na 2 ochr o A4) yn disgrifio dull yr Ymgynghorydd o ymdrin â'r comisiwn

- Cynnig ffi ar gyfer y gwaith, gan gynnwys dadansoddiad cost o'r ffioedd a'r dyraniad amser ar gyfer pob aelod o'r tîm a'r dyddiau gwaith disgwyliedig. Dylai'r ffi gynnwys treuliau a nodi'n glir a oes TAW yn daladwy.

- Amserlen o'r gyfraddau/cyfraddau fesul dydd a fyddai'n berthnasol pe bai gwaith ychwanegol yn cael ei gyfarwyddo y tu hwnt i gwmpas y briff hwn

- CVs aelodau staff allweddol a fydd yn gweithio ar y prosiect

- Enghreifftiau o 3 phrosiect tebyg a gyflawnwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf

- Dau eirda

7.2 Mae Ymddiriedolaeth Gregynog yn cadw'r hawl i gynnal cyfweliadau a/neu gyfarfodydd egluro gyda rhai o'r ymgynghorwyr tendro, neu bob un ohonynt, os ystyrir bod angen gwneud hynny. Gellir cymedroli'r asesiad ar sail cyfarfodydd egluro, os oes angen.

7.3 Gellir codi ymholiadau er eglurhad hefyd ar y sail uchod.

**8. Meini Prawf Asesu**

8.1 Bydd y cyflwyniadau a dderbynnir yn cael eu hasesu ar sail ansawdd/pris fel y disgrifir isod:

**Ansawdd (pwysoliad 70%): Pris (pwysoliad 30%)**

**Meini Prawf Ansawdd**

| | |
|---|---|
| **Meini prawf Ansawdd** Methodoleg arfaethedig yn cyfarfod â chwmpas y gwasanaethau ac yn dangos ymwybyddiaeth o gyd-destun gweithredol, gan gynnwys gweithio gyda'r iaith Gymraeg ac mewn sefyllfaoedd dwyieithog. Methodoleg a dull o ymdrin â'r comisiwn (uchafswm 2 ochr) | 30% |
| Mae gan yr ymgynghoriaeth brofiad o ddatblygu a chyflwyno fframweithiau gwerthuso ar gyfer prosiectau a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, mewn lleoliadau treftadaeth o gwmpas a maint tebyg. Enghreifftiau o 3 phrosiect cymharol a gynhaliwyd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf a geirdaon. | 15% |
| Mae gan aelodau arfaethedig y tîm brofiad o ddatblygu a chyflawni fframweithiau gwerthuso ar gyfer prosiectau y mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn eu hariannu, ac o weithio gyda chleientiaid tebyg. CVs | 15% |
| Gwerth am arian. Ffi a gynigir | 10% |

| | | |
|---|---|---|
| ANNIGONOL | Yn methu'n llwyr â bodloni'r safonau gofynnol, neu nid yw'n darparu cynnig. | 0 |
| GWAEL | Mae'r cynnig yn methu'n sylweddol â bodloni'r safonau gofynnol, mae'n cynnwys diffygion sylweddol a/neu mae'n anghyson â chynigion eraill. | 1 |
| LLAI NA BODDHAOL | Mae'r cynnig yn methu â bodloni'r safonau gofynnol mewn nifer o agweddau y gellir eu hadnabod ac yn arwain y gwerthuswr i wneud rhagdybiaethau. | 2 |
| BODDHAOL | Mae'r cynnig yn bodloni'r safonau gofynnol. | 3 |
| DA | Mae'r cynnig yn bodloni'r safonau gofynnol ym mhob agwedd berthnasol ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r gofynion. | 4 |
| RHAGOROL | Mae'r cynnig yn bodloni'r safon ofynnol ym mhob agwedd berthnasol ac yn rhagori ar rai neu bob un o'r gofynion o bwys. | 5 |

**Cost**

| | |
|---|---|
| Bydd y gost isaf yn derbyn 30%. Yna bydd cost pob cyflwyniad yn derbyn cyfran o'r 30% ar sail pro rata. Felly, os yw'r gost isaf yn £8,000 a chost arall a gyflwynir yn £12,000, bydd y dyfynbris o £8,000 yn derbyn 30% a bydd y dyfynbris o £12,000, sef 1.5 gwaith y dyfynbris isaf, yn derbyn 20% (12,000 / 8,000 = 1.5, 30 / 1.5 = 20) | 30 |

8.2 Mae Ymddiriedolaeth Gregynog yn cadw'r hawl i beidio â derbyn y pris isaf nac unrhyw dendr arall a dderbynnir.

**DIWEDD**